LC498

# Cynulliad Cenedlaethol Cymru
# The National Assembly for Wales

**ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU** **LEGISLATION COMMITTEE REPORT**

**Gorchymyn Iechyd Planhigion (Cymru) (Diwygio) 2002**

Mae Gorchymyn Iechyd Planhigion (Prydain Fawr) 1993 yn gweithredu mesurau sy'n amddiffyn rhag cyflwyno organebau sy'n niweidiol i blanhigion i Aelod-Wladwriaethau'r UE, a rhag eu lledaenu o fewn y Gymuned.

Mae'r gorchymyn presennol, wrth weithredu amryw Gyfarwyddebau'r Comisiwn, yn cynnwys gwelliannau manwl i'r Atodlenni i Orchymyn 1993.

**Rheol Sefydlog 11.5**

Nid oes unrhyw bwyntiau wedi'u nodi i'w cofnodi o dan Reol Sefydlog 11.5.

**Sylwadau Cyffredinol**

**Teitl**

Nid yw trefn y geiriau yn y teitl ar frig tudalen 1 yn gyson â'r hyn a geir yn erthygl 1 ac ar frig tudalen 3.

Dylid cywiro hyn naill ai drwy Femorandwm Cywiriadau neu wrth argraffu'r Gorchymyn.

**Rhagarweiniad**

Hwyrach nad yw wedi'i eirio yn union yn ôl y bwriad. Cyfeiria at bwerau "conferred on" y Cynulliad ond wedyn at y pwerau fel rhai "now vested" yn y Cynulliad. Lle y defnyddir ffurf "conferred on"/"vested in", yr arfer yw bod "conferred on" yn cyfeirio at y modd y rhoddwyd y swyddogaeth gan y Ddeddf yn wreiddiol.

Mick Bates AC
**Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau**

25 Mehefin 2002